**Ysgol Pont y Crychydd – Cynnig Trefniadaeth yr Ysgol**

**Cwestiynau Cyffredin**

**Sut bydd y plant yn cael eu cefnogi wrth drosglwyddo i'r ysgol newydd?**

O'r cychwyn cyntaf, byddai dysgwyr yn rhan o'r prosesau gwneud penderfyniadau ynghylch yr adeilad newydd. Mae'r cyngor ysgol eisoes yn rhan o'r ymgynghoriad.

Mae Pennaeth Ysgol Pont y Crychydd a staff yr ysgol yn siarad am yr adeilad newydd mewn gwasanaethau. Bwriedir cynnal cystadleuaeth gelf 'Dylunio'r Ysgol Newydd' ar gyfer yr ysgol gyfan a byddai ymweliadau safle'n cael eu trefnu ar gyfer dysgwyr yn ystod y cyfnod adeiladu.

Fel gyda chynlluniau adeiladu ysgolion blaenorol, rhagwelir y byddai'r contractwr dylunio ac adeiladu llwyddiannus yn ymgysylltu â'r dysgwyr drwy gydol y cyfnodau dylunio ac adeiladu.

Unwaith y bydd y gwaith adeiladu wedi'i gwblhau, bydd Ysgol Pont y Crychydd yn trefnu teithiau trosglwyddo o amgylch yr ysgol, fesul grŵp.

**Beth fydd yr ysgol newydd yn ei gynnig?**

Mae gan yr ysgol bresennol amrywiaeth o gyfleusterau arbenigol. Fodd bynnag, mae materion arwyddocaol o ran nifer a maint y gofodau addysgu a'r mannau nad ydynt ar gyfer addysgu. Mae lle storio a mannau symud hefyd yn broblemus ac o ystyried anghenion y dysgwyr (y mae angen cymhorthion cerdded neu gadeiriau olwyn ar lawer ohonynt), gall hyn achosi problemau o ran rheoli symud yn ddiogel o amgylch yr ysgol. Mae hylendid personol a chyfleusterau toiled hefyd yn heriol. Byddai'r holl faterion hyn yn cael sylw drwy ddarparu ysgol newydd a fyddai'n cael ei chynllunio'n benodol i ddiwallu anghenion dysgwyr.

**A fyddwch yn dod ag elfen o Ysgol Bryn Castell i'r ysgol newydd, gan fod gan un rhiant ddau o blant, un ym mhob ysgol?**

Dim ond ar gyfer y dysgwyr hynny ag anghenion cymhleth y nodwyd bod angen lle arnynt yn Ysgol Pont y Crychydd (hynny yw, dysgwyr ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig, anawsterau dysgu difrifol, neu anawsterau dysgu dwys a lluosog) y bydd yr ysgol newydd.

**Beth fyddai'r cynlluniau ar gyfer safle presennol Ysgol Pont y Crychydd yn y dyfodol pe bai'r ysgol newydd yn cael ei hadeiladu?**

Nid oes penderfyniad wedi'i wneud hyd yma. Byddai defnydd y safle presennol yn y dyfodol yn amodol ar arfarniad opsiynau a phenderfyniad gan y Cabinet yn y dyfodol, yn amodol ar ganlyniad llwyddiannus y broses statudol i adleoli Ysgol Pont y Crychydd.

**Pam ydyn ni'n adeiladu ysgol newydd?**

Mae'r cyngor wedi cyflwyno'r cynnig i godi adeilad newydd ar gyfer Ysgol Pont y Crychydd er mwyn:

- cynyddu nifer y lleoedd ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) cymhleth;
- lleihau nifer y dysgwyr sy'n cael eu hanfon y tu allan i'r sir (mae'r arfer hwn yn ddrud ac yn aml yn gosod amseroedd teithio sylweddol ar ddisgyblion); a
- darparu adeilad addas a digonol sy'n diwallu anghenion ein dysgwyr mwyaf agored i niwed.

**A fydd yr ysgol yn cael ei hadeiladu mewn ffordd sy'n ystyriol o'r amgylchedd, gan ddefnyddio'r holl dechnegau a deunyddiau modern i ostwng ôl troed carbon yr ysgol?**

Pan ddefnyddir grant Llywodraeth Cymru ar gyfer adeiladu ysgolion newydd, rhaid cyflawni sgôr 'ragorol' Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM) a byddai'n ofynnol i'r ysgol ennill Tystysgrif Perfformiad Ynni gradd A. Dylai safon ofynnol o 15% o leiaf o gyfanswm gwerth y deunyddiau a ddefnyddir ddeillio o gynnwys wedi'i ailgylchu a'i ailddefnyddio yn y deunyddiau a ddewisir. Mae hyn yn sicrhau bod cynaliadwyedd wrth wraidd y gwaith dylunio ac adeiladu.

Hefyd, yn unol â'r ymrwymiad hirdymor i leihau allyriadau carbon a chyflawni adeiladau Carbon Sero Net, o fis Ionawr 2022 mae'n ofynnol i bob prosiect ddangos technegau a thechnolegau lleihau carbon a chyflawni Carbon Sero Net ar waith a chyrraedd y targed perthnasol ar gyfer lefel y carbon a gaiff ei allyrru.

**Mae'r buddsoddiad hwn o £25m yn gyfle i gwmnïau adeiladu lleol fod yn rhan o'r buddsoddiad. Faint o'r deunyddiau adeiladu a ddefnyddir a geir yn lleol i leihau'r ôl troed carbon ac a gynigir i gwmnïau lleol?** A fydd elfen o'r holl gontractwyr yn gorfod talu'r cyflog byw a chymryd cynifer o brentisiaethau / cyfleoedd hyfforddi pan fydd yr ysgol yn cael ei hadeiladu?

Bydd contractwr 'dylunio ac adeiladu' yn cael ei gaffael drwy Fframwaith Adeiladu Cydweithredol De-ddwyrain a Chanolbarth Cymru (hynny yw, SEWSCAP). Bydd y

contractwr llwyddiannus yn chwilio am bartneriaid yn y gymuned leol ac wrth wneud hynny, yn helpu i roi hwb i'r economi leol. Un o'r ffyrdd y deuir o hyd i gwmnïau lleol yw drwy ddigwyddiadau 'cwrdd â'r prynwr' sy'n ceisio annog busnesau lleol i gynnig eu hunain ar gyfer cael eu hystyried. Bydd y contractwr yn ceisio dod o hyd i ddur sy'n cael ei gynhyrchu yn y DU a chaiff ei annog i feddwl yn lleol yn gyntaf.

Yn unol â nod Llywodraeth Cymru o ddatblygu economi ffyniannus yng Nghymru sy'n gallu sicrhau twf economaidd cryf a chynaliadwy a mynd i'r afael â thlodi, mae'n bwysig bod y prosiect hwn yn manteisio ar y cyfleoedd Buddion Cymunedol sydd ar gael. Gellir cael y gwelliannau canlynol mewn canlyniadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol trwy gaffael cyhoeddus:

- cyfleoedd cadwyn gyflenwi ar gyfer mentrau cymdeithasol a busnesau lleol;
- cyfrannu at addysg drwy ymgysylltu ag ysgolion, colegau a phrifysgolion lleol;
- cyfrannu at fentrau cymunedol sy'n helpu i fynd i'r afael â thlodi ac yn gadael etifeddiaeth barhaol; a
- blaenoriaethau megis cefnogi pobl i gael gwaith.

Mae polisi Cyfrifon Banc Prosiectau (PBA) Llywodraeth Cymru yn cydnabod rôl bwysig isgontractwyr wrth gyflawni prosiectau ysgol a phwysigrwydd talu partneriaid y gadwyn gyflenwi yn deg ac yn brydlon. Mae PBAs yn cefnogi polisi Buddion Cymunedol Llywodraeth Cymru ac yn hyrwyddo arferion busnes moesegol yn benodol sy'n gwneud Cymru'n lle da i fyw, i weithio ac i wneud busnes.

**Ble mae'r ysgol am fod a ble fydd y llwybr i'r ysgol ac oddi yno?**

Byddai'r ysgol arfaethedig wedi'i lleoli ar safle Fferm yr Ynys (*Island Farm*) ym Mhen-y-bont ar Ogwr a byddai mynediad iddi drwy Barc Gwyddoniaeth Pen-y-bont ar Ogwr.

**Beth fydd yr effaith ar Fferm yr Ynys a'r traffig ar yr A48?**

Mae'r awdurdod lleol wedi comisiynu asesiad traffig i ystyried effaith y cynnig ar y rhwydwaith priffyrdd lleol.

Cyfeiriwyd at gylchfan A48/B4265 Heol Ewenni sydd â goleuadau traffig, gan mai'r gyffordd hon yw'r un drymaf gyda'r effaith fwyaf a brofwyd o ganlyniad i adleoli'r ysgol o'r gogledd i'r de o'r gylchfan.

Er mwyn lliniaru effaith adleoli'r ysgol arfaethedig, mae'r asesiad traffig wedi argymell y dylid gwella cyffordd wrth gylchfan Ewenni. Yn yr achos hwn, mae'r asesiad traffig wedi dangos y dylid cyflwyno lôn ychwanegol ar y ffordd ogleddol tuag at y gylchfan

(hynny yw, ar Heol Ewenni) ar gyfer symudiadau troi i'r chwith yn unig. Gellir ymgorffori'r dyluniad lefel uchel hwn o fewn graddau priffyrdd mabwysiedig.

Daw'r asesiad traffig i'r casgliad, gyda'r mesur lliniaru hwn ar waith, y gellir penderfynu bod y gwelliant arfaethedig i'r gyffordd yn lliniaru effaith y datblygiad arfaethedig ar weithrediad cylchfan Ewenni i safon dderbyniol.

**A ellid adeiladu'r ysgol ar ei safle presennol, neu ar safle'r coleg, y gwyddom ei fod yn symud, neu hyd yn oed ei adnewyddu?**

Ystyrir y byddai'r effaith a'r gweithrediadau symudedd o ran datblygu'r ysgol ar y safle presennol yn niweidiol i addysg a lles y dysgwyr.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Coleg Pen-y-bont ar Ogwr wedi penderfynu adleoli o gampws Heol y Bont-faen. Nid yw amseriad yr adleoli yn cyd-fynd â'r cynnig hwn a'r gymeradwyaeth ariannu mewn egwyddor a sicrhawyd ar gyfer yr ysgol newydd.

**Mae gan Ysgol Pont y Crychydd gyfleusterau sylweddol y tu allan i'r prif adeilad, y cae pêl-droed (a ddefnyddir gan y gymuned) a chaban pren. A fydd hyn yn symud neu'n cael ei ailadeiladu yn yr ysgol newydd?**

Fel y nodwyd gan Lywodraeth Cymru, bydd y cyfleusterau a ddarperir, ar y cyfan, yn cael eu pennu gan Fwletin Adeiladu 104 (hynny yw, y canllawiau ardal). Bydd gan yr ysgol gaeau, a fydd, yn ôl pob tebyg, yn arwyneb pob tywydd. Fodd bynnag, mae'r awdurdod lleol yn cydnabod bod yr ysgol ar hyn o bryd yn elwa o gyfleusterau eraill (er enghraifft, yr eco-gaban) a'r nod yw gweithio'n agos gyda'r ysgol i ystyried ffyrdd o ddarparu'r math hwn o gyfleuster arbenigol ar y safle newydd.

**Beth fydd y broses wrth symud ymlaen a phryd ydych chi'n rhagweld y bydd yr ysgol yn agor?**

Mae'r ysgol arfaethedig yn destun proses ymgynghori ffurfiol o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Dechreuodd y broses hon ar 4 Ebrill a bydd yn cau ar 18 Mai 2022. Bydd canlyniad y broses yn cael ei adrodd i'r Cabinet a phenderfynir a ddylid bwrw ymlaen â hysbysiad cyhoeddus.

Yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet, bydd yr hysbysiad cyhoeddus yn cael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf a bydd y canlyniad yn cael ei adrodd i'r Cabinet ym mis Medi. Os bydd y Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen â'r ysgol newydd, bydd gwaith dylunio ac adeiladu'r ysgol yn cael ei dendro. Byddai angen caniatâd cynllunio ar yr ysgol arfaethedig a chymeradwyaeth Llywodraeth Cymru i'r Achos Busnes Llawn. Byddai'r ysgol yn barod ar gyfer meddiannaeth ar ddechrau tymor yr hydref 2025.

**A ystyriwyd safleoedd eraill?**

Ystyriwyd safleoedd eraill o fewn y fwrdeistref sirol. Fodd bynnag, oherwydd ei leoliad a'i faint, barnwyd mai safle Fferm yr Ynys ym Mhen-y-bont ar Ogwr oedd y safle mwyaf addas ar gyfer yr ysgol arfaethedig.

**Beth fydd yr effaith ar y plant tra bydd yr ysgol newydd yn cael ei hadeiladu?**

Ychydig iawn o effaith a geir ar ddysgwyr a'u haddysg yn ystod y cyfnod adeiladu gan y bydd yr ysgol yn cael ei hadeiladu ar safle ar wahân, sy'n golygu y gall yr ysgol bresennol barhau i weithredu heb ymyrraeth.

Unwaith y bydd yr adeilad wedi'i drosglwyddo i'r awdurdod lleol, bydd angen symud adnoddau i'r ysgol newydd. Fodd bynnag, mae profiad yn dangos y gellir tarfu cyn lleied â phosibl trwy weithio'n agos gyda'r pennaeth, llywodraethwyr a staff trwy gynllunio'r rhaglen o amgylch anghenion yr ysgol.

**A fydd yr ysgol newydd yn cael effaith ar wersyll y carcharorion rhyfel?**

Ni fydd yr ysgol newydd arfaethedig yn cael unrhyw effaith ar Gwt 9, cyn Wersyll Carcharorion Rhyfel yn Fferm yr Ynys.

**A ymgynghorir â disgyblion, rhieni, gofalwyr neu warcheidwaid ynghylch yr adeilad newydd, neu'r cynllun?**

Byddai sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid yn cael eu cynnal mewn perthynas â'r dyluniad, a bydd y rhain yn cynnwys cyfarfodydd gyda dysgwyr a rhieni/gofalwyr. Bydd y sesiynau hyn yn cael eu harwain gan y contractwr dylunio ac adeiladu ar ôl iddo gael ei benodi.

**Beth fydd yn digwydd i Y Bont a Thŷ Weston?**

Mae Tŷ Weston yn eiddo i Goleg Pen-y-bont ar Ogwr ac mae wedi'i leoli ar dir y coleg. Felly, nid yw'r cynnig i adleoli Ysgol Pont y Crychydd yn effeithio'n uniongyrchol ar y ddarpariaeth.

Mae'r adeilad sy'n cael ei feddiannu gan Y Bont yn eistedd ar dir sy'n eiddo i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac yn cael ei brydlesu i Goleg Pen-y-bont ar Ogwr. Mae isbrydles yn ei lle gyda'r Bont, y Coleg felly yw landlord Y Bont. Hyd yma, nid yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Choleg Pen-y-bont ar Ogwr wedi gwneud unrhyw benderfyniad ar gyfer y dyfodol mewn perthynas â'r adeilad.